PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 10 IONAWR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mitchell(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Clark, Hill-John a/ac Darren Williams |

48 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

49 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

50 : COFNODION

Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016 a 6 Rhagfyr 2016 yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

51 : GWASANAETHAU MASNACHOL A CHYDWEITHREDOL – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Bu i'r Cadeirydd groesawu Aelodau Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad a oedd wedi eu gwahodd i'r cyfarfod er mwyn iddynt gyfrannu at yr eitem hon. Derbyniodd Aelodau adroddiad a oedd yn rhoi cyfle iddynt ystyried y cynnydd a wnaeth y Gwasanaeth Masnach a Chydweithio newydd ers ei sefydlu ym mis Mehefin 2016.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y bu gan broject y 'Gwasanaethau Seilwaith' nod o adnabod model addas er mwyn darparu 14 gwasanaeth y Cyngor a gwneud arbedion a gwella darparu'r gwasanaeth. Crynswth gwariant a gwariant net y 14 gwasanaeth yng nghwmpas y project oedd £71.2 miliwn a £26.1 miliwn yn y drefn honno. Roedd cyfanswm o 1255 swydd gyfwerth ag amser llawn yn y gwasanaethau hyn.

Ar 16 Mehefin 2016, cymeradwyodd y Cabinet sefydlu Gwasanaethau Masnach a Chydweithio a'r Gwasanaethau Cymdogaeth i ddarparu gwasanaethau trwy fodel mewnol wedi ei addasu. Trosglwyddwyd y Gwasanaethau Masnach a Chydweithio newydd i Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd. Arweinir y gwasanaeth gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol Masnacheiddio a Chydweithio, sy'n adrodd i Gyfarwyddwr Datblygu Economaidd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn adrodd i Fwrdd Project Masnacheiddio a Chydweithio, a sefydlwyd i arwain ar y gwaith o wella, moderneiddio a masnacheiddio gwasanaethau. Mae Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a Chynlluniau Gwella Ariannol wedi eu paratoi ar gyfer pob gwasanaeth ac mae'r rhain yn cynnwys deunydd a fydd yn cynorthwyo Datblygu Masnacheiddio a'r Gweithlu.

Rhoddodd yr adroddiad hwn grynodeb i Aelodau'r Pwyllgor o'r cynnydd sydd wedi ei wneud hyd yn hyn ym mhob un o'r gwasanaethau sydd yng nghwmpas y project. Hefyd derbyniodd Aelodau fanylion prif amcanion 2017/18 yn ôl cynlluniau cyflenwi gwasanaeth y meysydd.

Ers mis Mehefin 2016, mae swyddogion wedi cynnal cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr undebau llafur bob pythefnos i adolygu cynnydd a chefnogi cysylltu â rhanddeiliad. Yn ogystal, mae cysylltu rheolaidd â staff wedi digwydd ac mae'r gwasanaeth yn bwriadu lansio cylchlythyr staff yn fuan yn 2017.

O ran masnacheiddio, rhoddwyd gwybod i Aelodau bod dadansoddiad o'r wasanaethau'r Gwasanaethau Masnach a Chydweithio yn amcan gwariant allanol o tua £123 miliwn y flwyddyn. Credir y gellir gwario peth o'r gwariant allanol hwn yn fewnol ac y gellir gwneud arbedion trwy gaffael gwell a 'gwerthu'n ôl', h.y. gwerthu gwasanaethau i bartneriaid masnachol presennol.

Mae model 'cost a phrisio' wedi ei ddylunio ar gyfer y Gwasanaethau Fflyd (Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog) ac wedi derbyn adborth cadarnhaol, ac mae cynlluniau gwasanaeth er mwyn gweithredu'r model mewn rhannau eraill y gwasanaeth yn ystod Chwarter 4 2016/17. Cynigir nifer o declynnau masnacheiddio eraill yn cynnwys datblygu rheoli cyfrifau cwsmer, cyfarfodydd tîm bob pythefnos i adolygu cyfleoedd ac adolygiad o gyfleoedd marchnata tymor byr.

Rhoddwyd crynodeb o weithgareddau datblygu'r gweithlu sydd wedi eu gwneud. Roedd y rhain yn cynnwys creu prentisiaethau, Menter Sgiliau Hanfodol a hyrwyddo NVQs ar gyfer staff y rheng flaen.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau nad oedd cyllideb 2016/17 yn cynnwys unrhyw arbedion penodol o ran y Gwasanaethau Masnach a Chydweithio, fodd bynnag, rhoddwyd cyfanswm o £3.778 miliwn i wasanaethau'r cwmpas yn y broses bennu'r gyllideb. Y prif arbedion a'u nodwyd yn y gyllideb oedd:

- Costau Cyflogeion - £1.137 miliwn
- Incwm - £736,000
- Gwariant arall - £1.905 miliwn

Disgwyliwyd cyhoeddi'r arbedion a ragdybir ar gyfer 2017/18, 2018/19 a 2019/20 yng Nghynllun Gweithredu'r Gwasanaethau Masnach a Chydweithio 2017 i 2020. Disgwyliwyd cyllideb gytbwys ar gyfer 2017/18.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i'r cyfarfod. Gwahoddwyd yr Aelodau Cabinet i gyflwyno sylwadau byr.

Dywedodd y Cyng. Derbyshire bod y gwasanaeth yn ystyried ffyrdd o wella a gweithio'n fwy effeithiol yn barhaus. Roedd y model gweithredu mewnol gwell yn llai o risg i'r awdurdod. Roedd staff bellach yn cydnabod bod casgliadau gwastraff yn hybu llwyddiant masnachol ac bod yn rhaid iddynt weithio mewn dull mwy masnachol er mwyn i'r gwasanaeth ddwyn elw.

Dywedodd y Cynghorydd Hinchey bod masnachu'n digwydd trwy'r awdurdod. Mae gan staff trwy'r awdurdod sgiliau a gwybodaeth unigryw. Roedd yr awdurdod am fod yn fwy fel busnes a'r her a oedd yn ei wynebu oedd adnabod y sgiliau a gwybodaeth y gallwn eu gwerthu. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i lunio pecynnau gwasanaeth ac ehangu'r cynnig i wasanaethau cyhoeddus eraill, megis byrddau iechyd.

Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Tara King, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, y Gwasanaeth Masnachol a Chydweithio a David Lowe, Rheolwr Gweithredol, yn rhoi newyddion am y Gwasanaeth Masnachol a Chydweithio hyd yn hyn. Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am y cyflwyniad. Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor i holi, gwneud sylwadau neu geisio eglurder ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Wrth ymateb i gwestiwn gan y Pwyllgor, dywedodd swyddogion bod 9 prentisiaeth wedi eu creu.
  Roedd swyddogion yn ystyried bob cyfle i ehangu'r cynllun, yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roedd staff yn y timau glanhau yn derbyn cefnogaeth hefyd o ran datblygu gyrfa: roedd 12 aelod staff wedi cychwyn cwrs NVQ yn ddiweddar.

- Cadarnhaodd swyddogion bod 23 cerbyd wedi gadael y sefydliad, naill ai wedi eu gwerthu neu eu diddymu o'r cytundeb prydles.

- Gofynnodd Aelodau beth oedd y meini prawf ar gyfer mesur llwyddiant y model mewnol o'i gymharu â'r model cwmni hyd braich; beth oedd yr amserlen ar gyfer mesur llwyddiant a sut y gwneid penderfyniad parhaol.
  Dywedodd swyddogion y gwerthuswyd y gymhariaeth rhwng y modelau mewnol a hyd braich wrth ystyried yr achos busnes. Roedd y ddau fodel yn lled debyg, ond roedd y model mewnol yn peri llai o risg i'r awdurdod. Roedd rhai cyfyngiadau o ran gallu'r awdurdod i fasnachu. Roedd swyddogion yn ystyried bod y model mewnol yn gweithio'n dda ond bod rhai meysydd a oedd yn peri pryder, yn cynnwys parodrwydd y gwasanaeth am fasnacheiddio. Awgrymwyd efallai y byddai un neu ddau wasanaeth sydd yn y gyfarwyddiaeth yn fwy addas ar gyfer trefniant hyd braich. Fodd bynnag, roedd hi'n annhebyg y byddai newidiadau i'r strwythur presennol yn y 12 mis nesaf.

- O ran gwelliannau i'r gwasanaeth a gostwng defnyddio asiantaethau, gofynnodd Aelodau pa effaith y mae'r model gweithredu'n ei chael ar bresenoldeb a chynhyrchiant a sut y cymharir yr effaith hon.
  Dywedwyd wrth Aelodau bod presenoldeb yn y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog yn dda ac nad oedd pryderon o ran hynny yn y gwasanaeth. Roedd y ffocws ar gynhyrchiant a sut y gellid defnyddio amser ac adnoddau'n well. Yn y Gwasanaethau Casglu, roedd heriau o ran presenoldeb a gwneid ymdrech i gyflymu'r ymdrech i ostwng absenoldebau. Roedd y gwariant ar asiantaethau'n gostwng ond does absenoldebau salwch hirdymor ond wedi gostwng gan 0.5%. Roedd hon yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Cyngor. Dywedodd Swyddogion bod absenoldeb salwch mewn rhai gwasanaethau bob tro'n debygol o fod yn uchel oherwydd yr amgylchedd gwaith caled.

- Gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i'r Pwyllgor sylwi bod y ffigyrau presenoldeb wedi gwella yn yr awdurdodau lleol a oedd wedi anfon casglu gwastraff yn allanol.
  Efallai bod hyn oherwydd y telir tâl gwobr am bresenoldeb. Yng Nghaerdydd, roedd ymdrechion i newid diwylliant a gwaith yn fwy effeithiol. Mae Rheolwyr wedi derbyn y gyfrifoldeb o ddatblygu staff eu timau. Mae 370 aelod staff wedi cwblhau Rhaglen Rheolwyr Caerdydd.

- Gofynnodd Aelodau faint o weithwyr asiantaeth a gyflogir.
  Dywedodd swyddogion bod 72 aelod staff yn y CAD a bod 6 yn weithwyr asiantaeth. Mae rhwng 20 a 30 o'r 172 aelod staff casglu yn rhai asiantaeth. Mae'r ffigwr hwn yn amrywio ac nid oedd yn bosibl cael gwared ar staff asiantaeth yn gyfan gwbl. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd ei fod wedi ei synnu gan nifer y staff asiantaeth yn Ffordd Lamby yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn gweithio i'r awdurdod. Dywedodd swyddogion bod proses recriwtio cronfa o staff llawn amser yn mynd rhagddi a bod hyn yn cynnwys 4 swydd gyrrwr Cerbydau Trymion dan hyfforddiant. Dywedwyd wrth Aelodau bod gan staff asiantaeth a gyflogir ers dros 2 flynedd hawliau cyflogaeth ac os yw eu presenoldeb a pherfformiad yn dda, mae'r gwasanaeth yn ceisio datblygu'r staff hyn ymhellach.

- O ran deunydd ailgylchu, gofynnodd Aelodau a oedd risg uwch o heintio os oedd cynnydd yn y gwastraff masnachol a gesglir hefyd yn y ffrwd wastraff.
  Dywedodd Swyddogion bod gwastraff masnachol wedi ei gasglu ers dros 20 mlynedd a'i fod eisoes yn rhan o'r ffrwd wastraff. Anogir cleientiaid masnachol i ailgylchu ac mae'r gyfradd ailgylchu ar hyn o bryd tua 30%. Bydd Deddf yr Amgylchedd yn gorfodi busnesau masnachol i ailgylchu ac er bod ansicrwydd yn parhau o ran cyfrifoldebau gorfodi, bydd y Ddeddf yn rhoi cyfle i swyddogion gynyddu'r cyfraddau ailgylchu.

- Dywedodd swyddogion bod staff sy'n dychwelyd i'r gwaith wedi cyfnodau hir o absenoldeb salwch i fod i wneud hynny.
  Mae'n bosibl rhoi 'dyletswyddau ysgafn' iddynt a chyfle i'r rhai sydd â diffyg sgiliau fynd i'r afael â hynny. Dywedwyd wrth Aelodau bod y cymhwyster NVQ wedi ei seilio ar asesiad yn y gwaith ac felly, mae angen i'r staff weithio er mwyn ennill y cymwysterau.

- Gofynnwyd i swyddogion faint o amser a gymerodd hi i gyflwyno system rheoli fflyd o'r adeg pan ddeallwyd bod angen hynny.
  Dywedodd Swyddogion bod y system wedi ei chaffael a'i gweithredu o fewn 3 mis. Dywedwyd wrth yr Aelod Cabinet bod hon yn fater i Fwrdd Project Masnacheiddio a Chydweithio. Roedd adnoddau mewn lle ond roedd protocolau caffael Llywodraeth Leol yn cyfyngu ar y gwasanaeth.

- Mynegodd Aelodau bryderon o ran nifer yr ysgolion a oedd wedi optio allan o Cytundebau Lefel Gwasanaeth Cynnal Ysgolion.
  Gofynnodd Aelodau faint o ysgolion a oedd wedi optio allan ac a oedd staff yn rhagweithiol yn eu hymdrechion i ddod â'r ysgolion hynny'n ôl yn fewnol.
  Dywedwyd wrth Aelodau bod 29 ysgol wedi optio allan ac mai 2 ysgol uwchradd yn unig a oedd wedi dychwelyd. Roedd Swyddogion yn ystyried bod ysgolion wedi colli ffydd yn y Gwasanaethau Cynnal Adeiladau a bod angen gwneud ymdrechion i ail feithrin y gwasanaethau hyn.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 52 : STRATEGAETH BEICIO DDRAFFT A MAP RHWYDWAITH INTEGREDIG

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau i ystyried y 'Strategaeth Feicio Ddrafft 2016 i 2026' a 'Map Rhwydwaith Cyfunol' Caerdydd. Mae Strategaeth Feicio Ddrafft 2016 i 2026 yn nodi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer beicio a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf i wireddu ei weledigaeth trwy ddangos sut y gall beicio wneud cyfraniad pwysig i'r weledigaeth o wneud Caerdydd y brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

Dywedwyd wrth Aelodau bod y ddogfen wedi ei drafftio yn dilyn gwaith cysylltu helaeth gydag ystod eang o grwpiau, sefydliadau a busnesau. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i barhau i gysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei fod yn cael y canlyniadau gorau bosibl wrth roi'r camau gweithredu sydd yn y strategaeth ar waith. Rhoddodd yr adroddiad grynodeb i aelodau o'r amryw adrannau yn y strategaeth.

Er mwyn gweithredu Strategaeth Feicio Caerdydd, roedd hi'n hollbwysig gosod seilwaith addas ar gyfer beicio. Roedd y 'Map Rhwydwaith Cyfunol' a'r 'Map y Llwybrau Presennol' yn nodi'r seilwaith beicio a cherdded sydd ar gael yn y ddinas yn ogystal â'i safon. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gofyn i awdurdodau lleol Cymru gynllunio ar gyfer cynnig llwybrau teithio llesol a dangos gwelliant parhaus o ran darpariaeth ar gyfer teithio llesol. Mae hyn yn weithredol trwy 'Map y Llwybrau Presennol' a'r 'Map Rhwydwaith Cyfunol'.

Mae'r Map Rhwydwaith Cyfunol ar gyfer Cerdded a'r Map Rhwydwaith Cyfunol ar gyfer beicio wedi eu harchwilio gyda theclynnau archwilio Llywodraeth Cymru er mwyn asesu a ydynt yn cynnig lefel gwasanaeth sy'n unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac felly ar y Map Llwybrau Presennol. Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod, yn groes i'r llwybrau cerdded presennol, y ddarpariaeth bresennol ar gyfer beicio'n bytiog ac yn anghyflawn. Nid oedd rhan fwyaf y llwybrau beicio a archwiliwyd fel rhan o waith creu'r Map Llwybrau Presennol yn cyrraedd safonau isaf Teclyn Archwilio Llywodraeth Cymru.

Mae pob llwybr beicio a'i hystyriwyd wedi ei gynnwys yn y cwmpas ar gyfer y Map Rhwydwaith Cyfunol er mwyn creu rhwydwaith llwybrau cyfunol, llawn ar gyfer y dyfodol, a fydd yn cysylltu cymunedau â chyrchfannau ar hyd y ddinas. Nodwyd llwybrau eraill o'r Cynllun Rhwydwaith Beicio Strategol, y Cynllun Datblygu Lleol, trwy ymgynghori ag aelodau'r cyhoedd ac fe'u hadnabuwyd trwy dadansoddiad o'r bylchau daearyddol.

Rhoddwyd gwybod i aelodau bod rhestr o gynlluniau wedi ei datblygu er mwyn gwella'r llwybrau sydd ar y Map Rhwydwaith Cyfunol. Mae dau brif goridor llwybr wedi eu nodi fel rhan o'r Map Rhwydwaith Cyfunol sy'n cysylltu safleoedd datblygu strategol a chymunedau lleol â phrif gyrchfannau megis canol y ddinas a'r Bae. Bwriedir y bydd y rhestr gynlluniau a gynigir ar gyfer y prif goridorau llwybr yn cynnig newid mawr yn y ddarpariaeth ar gyfer beicio trwy gynnig cyfleusterau i bobl o bob

oedran a gallu yn unol â'r uchelgeisiau ar gyfer Strategaeth Feicio Caerdydd sydd ar y ffordd.

Ni flaenoriaethwyd y llwybrau beicio a'r rhestr gynlluniau sydd yn y Map Rhwydwaith Cyfunol drafft. Cynigwyd gwneud ymarfer blaenoriaethu yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar y Map Rhwydwaith Cyfunol a'r Strategaeth Feicio drafft.

Roedd y Cynllun Cysylltu a oedd wedi ei atodi at yr adroddiad yn cynnwys manylion y gweithgareddau a gynlluniwyd i gysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd trwy gydol y cyfnod ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos. Bu ymgynghoriad ag aelodau lleol ym mis Tachwedd 2016. Derbyniodd y Cabinet y Map Rhwydwaith Cyfunol ar 15 Rhagfyr 2016. Yn y cyfarfod hwnnw, derbyniodd y Cabinet argymhelliad i gymeradwyo'r cynllun cysylltu ac ymgynghori a gynigwyd. Mae cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn ofynnol gan Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Canllaw Statudol ar gyfer Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ramesh Patel, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd, Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Gail Bodleu-Scott, Arweinydd Is-Adran, Polisi a Datblygu Trafnidiaeth i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Patel bod y strategaeth yn nodi gweledigaeth y Cyngor o ran beicio tan 2026. Gofynnodd i'r Pwyllgor gydnabod cyfraniad gwaith pwysig Gehl Associates at y strategaeth hyd yma. Dywedodd Andrew Gregory bod beicio yn cynyddu mewn dinasoedd blaengar trwy'r byd ac nad yw hi'n gyd-ddigwyddiad bod y dinasoedd blaengar yn y DU yn fywiog ac yn arwain ar drawsnewid y sefyllfa feicio. Roedd targed o sicrhau cynnydd uchelgeisiol o 9% i 18% o ran faint o deithiau a wneir ar feic. Pe llwyddid i gyrraedd y targed hwn, byddai'r ddinas yn teimlo'n wahanol, byddai sail i dwf economaidd a byddai effaith enfawr ar iechyd ac felly o'r herwydd, roedd Strategaeth Feicio Caerdydd yn hanfodol oherwydd ei bod yn gysylltiedig ag ystod o flaenoriaethau corfforaethol.

Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Strategaeth Feicio Caerdydd a'r Map Rhwydwaith Cyfunol. Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, holi cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Sylwyd bod defnydd beics wedi dyblu dros y degawd diwethaf.
  Gofynnwyd i Aelodau a wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r rhesymau dros y cynnydd mewn beicio; i ba raddau yr oedd y ffactorau eraill yn dylanwadu ar y cynnydd hwn mewn beicio a beth arall y gellid ei wneud i barhau i wneud beicio'n apelgar ac i wneud gyrru'n llai apelgar. Awgrymodd yr Aelod Cabinet bod arian gan Lywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn bosibl i gynnig rhwydwaith mwy diogel, mwy eang, o lwybrau beicio. Caniataid beicio mewn parciau ac ardaloedd 20 mya yn golygu bod modd i feicwyr deithio'n fwy hyderus. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod angen ystyried mesurau i gymell pobl i feicio yn ofalus fel na fyddent yn effeithio'n andwyol ar gyfleoedd i yrru. Dywedodd bod newid mewn dull teithio'n broses raddol.

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad o'r camau gweithredu blaenoriaethol yn y strategaeth.
  Rhoddwyd gwybod i Aelodau bod y drafodaeth yn dal i fynd rhagddi gyda phartneriaid am y llwybrau a gynigiwyd ar gyfer y camau gweithredu blaenoriaethol megis y ffordd gysylltu rhwng Ysbyty'r Waun a chanol y ddinas. Nid oedd y ffordd bresennol yn Cathays Terrace/Senghennydd Road yn enghraifft o arfer gorau. Dywedodd yr Aelodau Cabinet y blaenoriaethir llwybrau trwy ardaloedd siopa lleol yn ninasoedd Ewrop, er bod trafodaethau'n dal i fod yn eu camau cynnar.

- Roedd Aelodau'n ystyried bod llwybr o'r dwyrain i'r gorllewin trwy'r ddinas yn hanfodol.
  Dywedodd yr Aelodau Cabinet nad oeddent wedi cyrraedd cam penderfynu er bod llwybrau yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, croesawodd farn y Pwyllgor. Bydd datblygiad y Gyfnewidfa Drafnidiaeth yn rhoi cyfle i edrych ar ganol y ddinas yn eang.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 53 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL – ADFER YR AFONYDD – ADRODDIAD DRAFFT GORCHWYL A GORFFEN (I DDILYN)

Derbyniodd y Pwyllgor gopïau o ohebiaeth a anfonwyd ac a dderbyniwyd mewn perthynas â materion oedd wedi'u craffu gan y Pwyllgor hwn yn flaenorol.

CYTUNWYD – fod yr adroddiad gohebiaeth a dogfennau atodedig yn cael eu nodi

## 54 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynghorwyd Aelodau fod y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol nesaf ar ...????

## 55 : Y FFORDD YMLAEN

PENDERFYNWYD – Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelodau Cabinet yn amlygu'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

## 56 : GOHEBIAETH YN DILYN CYFARFOD Y PWYLLGOR

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 pm